# Bendibwmbwls Nadolig

Bendibwmbwls!
Wel dyma broblem
Mae Siôn Corn yn rhy brysur i'n helpu i!
Bendibwmbwls!
Mae'n rhaid i mi hedfan
I dop y goeden dal i achub Benji fi!

Ond ffrindie!
Falle bod cyfle!
I mi achub fy annwyl Benji bach!
Ie ffrindie!
Dyma fy nghyfle!
Yn un o'r cypyrddau dof o hyd i'r sach!

Caf fymryn o lwch hudol
Dwi'n siwr bydd hynny'n iawn
I hedfan at fy Menji
Ac ymddiheuro'n llawn.

Bydd Siôn Corn ddim yn meindio
Wrth i mi helpu fy hun
Benji yw fy ffrind i
Fy ffrind gorau un!

Bendigedig!
Cyhoeddiad pwysig!
Dwi am chwilio'n ddyfal drwy'r cypyrddau hud
Mae'n Nadolig!
Rhaid bod yn garedig
A chaf Ddolig gyda Benji, deryn gorau'r byd

© 2021 S4C